Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mick.Antoniw@assembly.wales

12 Chwefror 2020

Annwyl Mick,

Offeryn Statudol ar draws y DU – Rheoliadau'r Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi gwneud yr offeryn statudol uchod o dan bwerau a amlinellir yn Neddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae'r Offeryn Statudol brys hwn a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud yr addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn parhau i sicrhau bod Cynlluniau Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn weithredol ar gyfer 2020, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw sy'n pennu effaith y diwygiadau ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

O safbwynt unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, gallaf gadarnhau bod y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r gwaith o'i weithredu yng Nghymru yn fater datganoledig.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru heb lyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Ni all yr Ysgrifennydd Gwladol ond arfer y swyddogaethau deddfwriaethol hyn ar draws y DU gyda chydsyniad Gweinyddiaeth Ddatganoledig. Mae'r swyddogaethau hyn yn gysylltiedig â therfyn uchaf taliadau uniongyrchol y DU, ac o'r herwydd bernir nad yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Wedi dweud hynny, byddai newidiadau i derfyn uchaf y DU yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

effeithio ar gyfran Cymru o'r terfyn uchaf cenedlaethol. Yn sgil yr effaith ar faes datganoledig caiff y pwerau hyn eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Gallai'r ffordd y caiff y swyddogaethau hyn eu drafftio olygu bod y gofynion o ran cydsyniad a nodir ym mharagraff 8(1)(c) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol os bydd y swyddogaethau'n cael eu gwaredu mewn Deddf gan y Senedd yn y dyfodol.

Mae Swyddfa Cymru a DEFRA wedi cadarnhau y bydd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn cael ei gynnwys mewn Gorchymyn Adran 109 sydd yn yr arfaeth er mwyn sicrhau ei fod ef, a hefyd unrhyw reoliadau a gaiff eu llunio yn unol ag ef, yn seiliedig ar effaith cyfyngiadau Atodlen 7B. Nid yw'r amserlen ar gyfer y Gorchymyn Adran 109 wedi'i chadarnhau eto.

Mae'r gyfraith yn cael ei diwygio fel a ganlyn:

- Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 – yn sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth sydd o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 639/2014 – yn ategu'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 – yn nodi'r rheolau ar gyfer cymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru, er effeithlonrwydd, hwylustod gwleidyddol ac yn sgil natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn ofalus; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ac at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd